**(HCC 986)**

**Cofnodion cyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am drwy gyfrwng Microsoft Teams Ddydd Iau 14 Ionawr 2021**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Melody Chapman, Huw Davies, John T Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Catherine Smith a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 7a, 8a, 8b & 8c
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Glesni Phillips (Dadansoddwraig Data) – Eitem 11b
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

**1. Croeso a Sylwadau'r Cadeiryddd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i bumed cyfarfod ffurfiol y Bwrdd i gael ei gynnal yn rhithiol oddi ar ddechrau'r pandemig Coronafeirws (Covid-19).

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol rhithiol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:-

5 Tachwedd 2020 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynychu cynhadledd rithiol NFU Cymru, sef Bwyd a Ffermio Cymru – Symud Ymlaen

12 Tachwedd 2020 – Cynhadledd HCC – Sesiwn Holi ac Ateb Bwrdd HCC, Strategaethau Allforio mewn byd ôl-Brexit a Chynhadledd Cig Coch Cymru – Y Llwybr tuag at Niwtraliaeth Hinsawdd

17 Tachwedd 2020 – Cyfarfod Llywodraethiant chwarterol Llywodraeth Cymru a HCC

18 Tachwedd 2020 – Cyfarfod diweddaru Bwrdd HCC

25 Tachwedd 2020 – Cyfarfod Grŵp y Prif Weinidog ar Ymadael â'r UE

30 Tachwedd 2020 – Gwahoddwyd y Cadeirydd i fod yn aelod o banel yn Seminar Rhithiol NFU Cymru yn y Ffair Aeaf

4 Rhagfyr 2020 – Penodi Cadeirydd HCC – cyfweliadau

16 Rhagfyr 2020 – Cyfarfod bord gron EERA y Gweinidog i drafod Cyfnod Pontio'r UE

7 Ionawr 2021 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn mynychu cynhadledd rithiol Rhydychen ar Ffermio Go Iawn

## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gareth Wynn Davies.

## 3. Datganiadau o Fuddiannau

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

## 4. I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020 (HCC 974)

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. Materion yn codi

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a chostau adennill 2021 / 2022*

Nodwyd bod y Gweinidog wedi cytuno ag argymhelliad y Bwrdd y dylai'r ardollau aros fel y maent ar gyfer 2021 / 2022.

## 6. Diweddariad Ôl-Brexit

Yn dilyn misoedd o drafodaethau rhwng y DG a'r UE, croesawodd y Bwrdd y newyddion cadarnhaol ynghylch Cytundeb Masnach a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2021. Roedd hefyd yn dda nodi y bu modd osgoi cyflwyno tariffau ar allforion cig coch.

Roedd cyfnod newydd wedi dechrau ac roedd busnesau ar hyd y gadwyn gyflenwi yn gorfod addasu i'r amgylchedd masnachu newydd.

Disgwylid peth ymyrraeth a sawl her i fasnach yn ystod y misoedd nesaf o ran symud nwyddau, gan gynnwys dehongli rheolau newydd a chydymffurfio ag ardollau ac ardystiad iechyd. Ar hyn o bryd roedd yn ymddangos bod rhywfaint o oedi mewn porthladdoedd a oedd yn ychwanegu at gost allforio (rhwystrau di-dariff). Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw broblemau mawr na negyddiaeth i'w hadrodd ar hyn o bryd gan y diwydiant.

Byddai'r Weithrediaeth yn cadw llygad ar yr heriau parhaus a chaent eu codi gyda'r Bwrdd yn ôl y gofyn.

## 7. Adroddiadau HCC

a. Gweithgareddau (HCC 975)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*"Y Ffordd Gymreig: Tuag at Arweinyddiaeth Byd-eang wrth Gynhyrchu Cig Oen a Chig Eidion mewn modd Cynaliadwy":*

Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu ddiweddariad ynglŷn â'r uchod.

Cyhoeddwyd adroddiad *Y Ffordd Gymreig* yn ystod mis Rhagfyr 2020. Cynhaliwyd sawl cyfarfod briffio gyda grwpiau o randdeiliaid allweddol a swyddogion Llywodraeth Cymru cyn y lansiad.

Roedd yr adroddiad yn pwysleisio er y gallai ffermwyr Cymru ddal i gynhyrchu'n well er budd yr amgylchedd, roedd Cymru'n un o'r cynhyrchwyr cig coch mwyaf eco-gyfeillgar yn y byd.

Byddai HCC yn cynnal gweminar, 'Ymchwilio i Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru', Ddydd Llun 22 Chwefror 2021. Byddai'r siaradwyr a fyddai'n cymryd rhan yn cynnwys yr academydd blaenllaw, Dr Prysor Williams, uwch-ddarlithydd mewn rheolaeth amgylcheddol ym Mhrifysgol Bangor. Yn cymryd rhan hefyd fyddai Joe Jones a Louise McNicol, myfyrwyr PhD yn yr Ysgol Wyddorau Naturiol ym Mhrifysgol Bangor, sy'n ymchwilio i agweddau ar gynaladwyedd amaethyddol. Gellid cofrestru ar gyfer y gweminar drwy wefan HCC.

*Cynllun GI y DG*

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd gan y Weithrediaeth Cig Coch ar Gynllun GI newydd y DG a fyddai'n disodli Cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig yr UE.

Nodwyd y byddai bwydydd rhanbarthol a thraddodiadol â dilysrwydd a tharddiad gwarantedig, hyd at 31 Rhagfyr 2020, yn cael eu diogelu gan Gynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig yr UE.

Roedd cynhyrchion bwyd yn perthyn i dri chategori:

- Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO)
- Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)
- Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG)

Roedd 88 o Enwau Bwyd cofrestredig yn y DG (16 yng Nghymru) gan gynnwys Cig Oen Cymru, Cig Eidion Cymru a Phorc Cymreig Pedigri a Fegir yn Draddodiadol.

O ganlyniad i Brexit, roedd y DG wedi cyflwyno cynllun GI newydd sbon i ddiogelu enwau daearyddol bwyd, diod a chynhyrchion amaethyddol.

Byddai'r cynllun yn dilyn rheolau a gofynion cynllun PFN yr UE.

Nodwyd bod y DG yn bwriadu parhau i gydnabod cynhyrchion PFN yr UE a werthir o fewn y DG ac y byddai'r UE yn dilyn yr un trefniad yn ei diriogaeth.

Cafodd y tri logo newydd a gyflwynwyd gan y DG ar gyfer y cynllun bwyd gwarchodedig eu rhannu â'r Bwrdd:

- Tarddiad Dynodedig / Gwarchodedig y DG
- Tarddiad Daearyddol / Gwarchodedig y DG
- Arbenigedd Traddodiadol / wedi'i warchod yn y DG

Gellid defnyddio logos GI newydd y DG o 1 Ionawr 2021. Fodd bynnag, nodwyd cyfnod derbyn o 3 blynedd fel bod busnesau yn gallu integreiddio'r logo newydd yn eu pecynnau.

Roedd HCC yn argymell i fusnesau, am y tro, y gallai brandio Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru ym marchnadoedd Prydain Fawr a marchnadoedd allforio barhau yn ei ffurf bresennol ar hyn o bryd. Rhoddwyd gwybod i'r diwydiant am hyn.

Byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am ddatblygiadau.

b. I dderbyn crynodeb o 'Caffael Cig Coch Cymru – Dadansoddiad o gyfaint a gwerth cig coch a brynir gan sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru' (HCC 976)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a'i gyflwyno gan Reolwr Datblygu'r Farchnad.

Roedd HCC wedi gwneud y dadansoddiad er mwyn canfod faint o gig coch o Gymru a oedd yn cael ei brynu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddwyd y sylw cychwynnol i Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Datblygwyd cronfa ddata o gysylltiadau caffael sefydliadol a dosbarthwyd cais i lenwi holiadur yn wirfoddol i helpu HCC i ganfod faint o gig coch oedd yn cael ei brynu gan y sector cyhoeddus.

Dangosodd y crynodeb o'r ymatebion a'r canfyddiadau sut y gallai HCC barhau i ymgysylltu â'r sector.

Y camau nesaf:

Byddai'r maes gwaith hwn yn parhau fel rhan o’r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2021/2022.

c. I dderbyn adroddiad llafar ynghylch Rhagolygon Alldro 2020 / 2021

Cafodd yr uchod ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, ar sail cyfrifon hyd at fis Tachwedd 2020.

Byddai’r Bwrdd yn cael diweddariad eto yn y cyfarfod ar 4 Mawrth 2021

d. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 977)

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Nodwyd bod Bwletin y Farchnad yn dangos gostyngiad bach yng nghyfanswm y gwartheg a laddwyd rhwng Ionawr a Thachwedd 2020.

e. Digwyddiadau i ddod (HCC 978)

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

**8. Corfforaethol**

a. I ystyried Cynllun Corfforaethol drafft HCC 2021 / 2024 ( HCC 979)

b. I ystyried Cynllun Corfforaethol drafft HCC 2021 / 2022 ( HCC 980)

Cymerwyd bod yr uchod wedi’u ddarllen ac wedi'u cyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Roedd y newidiadau a awgrymwyd, yn dilyn cyfarfod cynllunio’r Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Llun 3 Tachwedd 2020, wedi’u hymgorffori yn y Cynlluniau.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at ddwy her fawr sy'n wynebu HCC a diwydiant cig coch Cymru yn ystod oes y ddau Gynllun, sef y pandemig Coronafeirws byd-eang a diwedd cyfnod pontio Brexit.

Câi'r cynlluniau drafft eu diweddaru a'u cyflwyno i’r Bwrdd i’w cymeradwyo yng nghyfarfod 4 Mawrth 2021.

**9. I dderbyn a chymeradwyo’r Cynllun Gwaith i’r Bwrdd ar gyfer 2021 / 2022 (HCC 981)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**(HCC 986)**

**10. Pwyllgorau HCC**

*Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg*

a. I dderbyn y Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd Ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020 (HCC 982)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

*Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata*

b. I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd Ddydd Mawrth 27 Hydref 2020 (HCC 983)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

**11. Papurau er gwybodaeth:**

a. Nifer y Defaid y Gellir eu Lladd yng Nghymru (HCC 984)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

b. Tueddiadau'r Farchad Gig Oen a Chig Eidion yn ystod y Pandemig Covid-19 (HCC 985)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd cyflwyniad cynhwysfawr gan y Dadansoddwraig Ddata.

**12. Unrhyw fater arall**

I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 14 Ionawr 2021

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Ymgynghoriad Defra ynghylch gwelliannau i les anifeiliaid yn cael eu cludo

Nodwyd y byddai HCC yn ymateb i'r uchod. Lluniwyd ymateb drafft a fyddai'n cael ei rannu â'r Bwrdd ar Sharepoint i gael sylwadau cyn ei gyflwyno.

**13.** **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod:</u>**

Diweddariad y Bwrdd (Teams) – Dydd Iau 4 Chwefror 2021 am 9.30am Cyfarfod Bwrdd HCC – Dydd Iau 4 Mawrth 2021. Yr amser heb ei drefnu eto

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**